Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Cyllid**
—
Welsh Parliament
**Finance Committee**

Laura Trott MBE AS
Prif Ysgrifennydd y Trysorlys

5 Chwefror 2024

Annwyl Brif Ysgrifennydd,

Adroddiad y Pwyllgor Cyllid: Cyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25

Mae'r Pwyllgor Cyllid wedi cyhoeddi ei adroddiad ar gyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25. Am y bumed flwyddyn yn olynol, un o'n prif bryderon yw amseriad y digwyddiadau cyllidol yn San Steffan, sydd wedi cael effaith sylweddol ar ddyddiad cyhoeddi cynigion cyllideb Llywodraeth Cymru. Mae'r oedi hwn yn cwtogi ar yr amser sydd gennym i ymgysylltu â rhanddeiliaid ac i graffu'n effeithiol ar y gyllideb.

Mae'r Pwyllgor wedi codi'r mater hwn o'r blaen gyda'ch rhagflaenwyr, yn fwyaf diweddar ar 27 Medi 2023, pan ysgrifennais at gyn-Brif Ysgrifennydd y Trysorlys i gyfleu ein pryderon ei bod yn ymddangos mai ychydig iawn o ymgysylltu sydd rhwng y Trysorlys a Llywodraeth Cymru ar lefelau cyllid datganoledig cyn cyhoeddiadau cyllidol y DU.

Rwy'n sylweddoli nad yw Gweinidogion y DU yn uniongyrchol atebol i'r Senedd, ond, o ystyried ein pryder parhaus yn y maes hwn, rydym wedi argymell y canlynol:

> *"...bod y Trysorlys yn ystyried prosesau cyllidebol datganoledig wrth bennu dyddiadau ar gyfer digwyddiadau cyllidol yn San Steffan yn y dyfodol, a'i fod yn cyhoeddi dyddiadau'r digwyddiadau hynny ymhellach ymlaen llaw, er mwyn galluogi Llywodraeth Cymru i gynllunio a chyhoeddi ei Chyllideb Ddrafft yn gynharach yn y flwyddyn."*

Byddai'r Pwyllgor yn ddiolchgar o gael ymateb ffurfiol i'r argymhelliad.

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCyllid@senedd.cymru
0300 200 6565

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddFinance@senedd.wales
0300 200 6565

Yn ogystal, mae'r Pwyllgor Cyllid yn cynnal ymchwiliad i Gysylltiadau Rhynglywodraethol Cyllidol sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.

Mae hwn yn ymchwiliad pwysig inni ystyried effeithiolrwydd y strwythurau rhynglywodraethol sydd ar waith ar gyfer cydweithio ar faterion cyllidol. O ystyried eich cyfrifoldeb am gysylltiad y trysorlys â datganoli i Gymru, mae'r Pwyllgor o'r farn ei bod yn hanfodol clywed gennych. Mae gennym nifer o sesiynau tystiolaeth wedi'u trefnu ar gyfer mis Mawrth, mis Ebrill, mis Mai a fis Mehefin a byddem yn ei chroesawu pe gallech chi gymryd rhan yn unrhyw un ohonynt yma yn y Senedd neu dros Zoom.

Byddwn yn ddiolchgar pe gallech nodi eich argaeledd – byddai clerc y Pwyllgor yn hapus i gysylltu â'ch swyddogion i drefnu dyddiad addas.

Edrychaf ymlaen at glywed gennych maes o law.

Yn gywir,



Peredur Owen Griffiths AS
Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.